

Llawlyfr Tir Cyhoeddus Caerdydd

Creu Strydoedd Byw



Hydref 2015



Atebolrwydd ac Ymwadiad

Er bod gofal rhesymol wedi'i gymryd wrth baratoi'r ddogfen hon i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir, mae'r ddogfen ei hun, ei chynnwys, yr enwau, y testun a'r lluniau yn y ddogfen yn cael eu cyflwyno 'FEL Y MAENT' heb unrhyw warantau, boed hynny'n ddatganiedig neu ymhlyg. Yn unol â chyfraith y DU, mae Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ['Y Cyngor'], hyd yr eithaf, yn ymwrthod ag unrhyw warantau, boed yn ddatganiedig neu ymhlyg, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i warantau ymhlyg o ofal rhesymol, ansawdd boddhaol neu addaswydd at ddiben penodol a diffyg tresmasu ar deitl.

Mae'r ddogfen yn cynnwys canllaw a nodiadau ar agweddau penodol o'r gyfraith oherwydd gallant effeithio ar y person cyffredin. Dim ond gwybodaeth gyffredinol yw'r rhain; nid ydynt gyfystyr â chyngor cyfreithiol neu gyngor proffesiynol arall. Ni ddylid dibynnu arnynt fel sail ar gyfer unrhyw benderfyniad neu gamau cyfreithiol. Ni all y Cyngor dderbyn atebolrwydd am unrhyw golled a geir yn sgîl dibynnu ar gynnwys y ddogfen hon. Mae'r gyfraith yn newid yn gyson felly dylid ceisio cyngor arbenigol bob amser.

I'r graddau a ganiateir dan gyfreithiau perthnasol, ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod uniongyrchol, anuniongyrchol, damweiniol, arbennig neu ddilynol i unrhyw ddefnyddiwr (p'un a yw'n codi drwy gontract, camwedd gan gynnwys esgeulustod neu fel arall) sy'n codi mewn cysylltiad â defnydd o'r ddogfen hon.

Ni fydd cynnwys y ddogfen hon yn rhwystro'r Cyngor rhag arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau statudol, gan gynnwys, heb fod yn gyfyngedig i gyffredinolrwydd y gweithgaredd, ei swyddogaethau fel Awdurdod Cynllunio Lleol neu Awdurdod Priffyrdd Lleol.

1: Cyflwyniad	3	5: Arwyddion	40
1.1 Y Weledigaeth	3	5.1 Mynegbyst	40
1.2 Ynghylch y ddogfen hon	4	5.2 Paneli gwybodaeth twristiaid	41
1.3 Egwyddorion dylunio tir cyhoeddus	5	5.3 Hysbysfyrddau / paneli dehongli	42
1.4 Diogelu drwy dylunio	6	5.4 Arwyddion enwau stryd	42
1.5 Dylunio cynhwysol	6	5.5 Arwyddion traffig	42
1.6 Lleoli celfi stryd	7	5.6 Bolardiau traffig cyfeiriadol	43
1.7 Cydlynu dyluniad stryd	8		
2: Cymeriad Strydlun	10	6: Goleuadau stryd	44
2.1 Llawlyfr Tir Cyhoeddus – Ardaloedd Cymeriad	10	6.1 Colofnau goleuadau	44
3: Troedffyrdd, Ffyrdd Cerbydau ac Arwynebau	14	7: Coed Stryd	46
3.1 Arwynebau troedffyrdd	14	7.1 Plannu coed	46
3.2 Arwynebau ffyrdd cerbydau	14	7.2 Coed mewn dyluniadau gwella	47
3.3 Palet deunyddiau palmentydd	15	7.3 Griliau coed	47
3.4 Dulliau adeiladu palmentydd	20	7.4 Gwarchodwr coeden	48
3.5 Egwyddorion cyffredinol adeiladu palmentydd	20	7.5 Griliau coed mawr	48
3.6 Palmant botymog	21	7.6 Coed stryd aeddfed ar droedffyrdd	48
3.7 Cerrig cyrbau	22	7.7 Uwcholeuyddion	49
3.8 Sianeli ffyrdd cerbydau	23	7.8 Planwyr	49
3.9 Cyrsiau bandio	23	7.9 Dylunio tyllau coed dan ddaear	49
3.10 Caeadau archwilio	23	8: Offer Cyffredinol	52
3.11 Sianeli draenio	24	8.1 Bocsys cyfleustodau a phileri bwydo	52
3.12 Marciau arwyneb	25	8.2 Teledu cylch cyfyng (CCTV)	52
3.13 Marciau ffordd	25	8.3 Ciosgau ffôn	52
3.14 Mannau croesi troedffyrdd	25	8.4 Blychau post	53
3.15 Croesfan reoledig i gerddwyr	26	8.5 Peiriannau talu ac arddangos	53
3.16 Darpariaeth feicio	27	8.6 Drymiau posterï	53
3.17 Cilfannau	27	8.7 Blychau graean	53
3.18 Arwynebau uwch ffyrdd cerbydau	28	9: Gweithgareddau / Arddangosiadau mewn Ardaloedd i Gerddwyr	54
3.19 Arwynebau a Rennir	28	9.1 Caffis stryd	54
4: Celfi Stryd	30	9.2 Byrddau 'A'	54
4.1 Standiau beic	30		
4.2 Binau sbwriel a binau ailgylchu	31		
4.3 Bolardiau	33		
4.4 Bolardiau PAS68	34		
4.5 Safleoedd bws	35		
4.6 Seddi	36		
4.7 Rheilins	37		
4.8 Stydiau sglefrffyrddau	37		
4.9 Nodweddion hanesyddol	38		
4.10 Celf gyhoeddus	38		

1. Cyflwyniad

1.1 Y Weledigaeth

1.1.1. Mae tir cyhoeddus yn cyfeirio at y gofod rhwng adeiladau lle caiff bobl fynediad rhydd, megis strydoedd a sgwariau cyhoeddus. Mae dylunio o safon uchel, ynghyd â dewis o ddeunyddiau o safon uchel, yn gallu cynnig ymdeimlad o les drwy wneud strydoedd yn llefydd sy'n gweithredu'n dda fel llefydd i gerdded a beicio arnynt a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, a hefyd helpu i gefnogi'r economi leol drwy greu llefydd deniadol i bobl dreulio amser ynddynt yng nghanol y ddinas ac mewn canolfannau ardal / lleol. Drwy gydweithio i adeiladu ar gyflawniadau presennol gallwn greu tir cyhoeddus llwyddiannus ledled y ddinas sy'n gwella ansawdd bywyd pobl yn eu cymunedau lleol, yn rhoi ffocws ac ysgogiad i fusnes a thwristiaeth ac yn helpu i sicrhau mai Caerdydd yw'r brifddinas orau i fyw ynddi yn Ewrop.



1.2 Ynghylch y ddogfen hon

- 1.2.1. Diben y Llawlyfr Tir Cyhoeddus yw creu tir cyhoeddus unigryw ac eglur o ansawdd uchel ledled Caerdydd a fydd yn helpu i wella profiadau preswylwyr, gweithwyr ac ymwelwyr yn y ddinas. Dylai'r Llawlyfr weithredu fel canllaw i bawb sy'n ymwneud â dylunio, gweithredu a chynnal a chadw tir cyhoeddus, gan hefyd hysbysu datblygwyr a rhanddeiliaid eraill â buddiant.
- 1.2.2. Mae'r Llawlyfr yn nodi canllaw ac egwyddorion dylunio y dylid eu hystyried wrth ddylunio cynlluniau tir cyhoeddus a'u cymhwyso'n ofalus yn unol ag amgylchiadau pob safle unigol er mwyn creu strydoedd a mannau cyhoeddus cynhwysol, o ansawdd uchel sy'n hygyrch i bawb.
- 1.2.3. Mae'n ceisio sefydlu palet cyson, llai o faint ar gyfer deunyddiau palmentydd a chelfi stryd a fydd yn helpu i reoli / cynnal a chadw'r tir cyhoeddus yn barhaus gan nodi cyfres o egwyddorion cyffredinol sydd â'r nod o greu datrysiadau dylunio cadarnach a mwy hirhoedlog.
- 1.2.4. Mae'n bwysig cydnabod yr amrywiaeth eang o weithgareddau a swyddogaethau y mae'r tir cyhoeddus yn ymwneud â hwy ac mae'r Llawlyfr yn ceisio creu strydoedd a mannau cyhoeddus sy'n darparu amgylchedd deniadol a phleserus sy'n addas i gerddwyr ac sy'n ddigon cadarn i wynebu pwysau bywyd bob dydd, gan gynnwys symudiadau traffig, cerddwyr ac economi'r nos.
- 1.2.5. Diben y Llawlyfr yw:
- Cynnig dull eglur, cydlynol i barhau i ddatblygu ardaloedd cyhoeddus ledled y ddinas.
 - Creu strydoedd a thir cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n syml, taclus ac eglur.
 - Creu amgylchedd cynhwysol a diogel sy'n hygyrch i bawb.
 - Sefydlu dull mwy cyson o ran y paled o ddeunyddiau a ddefnyddir ar gyfer palmentydd a chelfi stryd.
 - Hyrwyddo'r defnydd o gynhyrchion o ansawdd a dulliau adeiladu cadarn i sicrhau hirhoedledd cynlluniau.
 - Cadw a gwella cymeriad hanesyddol y ddinas.
 - Annog dull cynaliadwy o ddylunio, cyrchu ac adeiladu.
 - Helpu i greu mannau cyhoeddus sy'n gadarn ac yn effeithlon o ran adnoddau mewn ymateb i effeithiau newid yn yr hinsawdd.
 - Hyrwyddo dull gweithredu cydlynol rhwng adrannau'r Cyngor a rhanddeiliaid.
 -

Creu Lleoedd a Dylunio Trefol > <ul style="list-style-type: none">• Cymeriad Unigryw• Hawdd i'w Defnyddio• Gwella Ansawdd Bywyd	LLAWLYFR TIR CYHOEDDUS	< Peirianeg ac Adeiladu <ul style="list-style-type: none">• Cadarn• Hawdd eu Gwasanaethu• Ymarferol
---	-----------------------------------	---

1.2.6. Dylid defnyddio'r Canllaw hwn ar ddechrau'r broses o ddylunio ardal gyhoeddus / priffordd a'i ystyried yng nghyd-destun rheoliadau, canllawiau a safonau priffyrdd cysylltiedig, gan gynnwys Manylebau Priffyrdd Caerdydd.

1.2.7. Cymeradwywyd Llawlyfr Tir Cyhoeddus Caerdydd gan y Cabinet ar 17 Medi 2015

1.3 Egwyddorion Dylunio Tir Cyhoeddus

1.3.1. Mae dylunio, safon a chynllun yn dylanwadu ar sut mae pobl yn symud drwy ardal, a sut maen nhw'n defnyddio ac yn mwynhau strydoedd ac ardaloedd cyhoeddus, Mae rhagor o ganllawiau yn y Canllaw i Strydoedd (2007) a'r Canllaw i Strydoedd 2 (2010).

- **Cymeriad:** Mae gan Gaerdydd ei hunaniaeth unigryw ei hun yn cynnwys rhwydwaith o ardaloedd cymeriad. Gellir llunio cymeriad ardal drwy amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys sut mae deunyddiau palmanta, celfi stryd a gwaith tirweddu ar strydoedd ac mewn mannau cyhoeddus yn integreiddio gyda phensaerniaeth leol, nodweddion hanesyddol ac atyniadau / gweithgareddau cyfagos. Mae cymeriad yn deillio o elfennau ffisegol adeiladau a gofod yn ogystal â'r gweithgareddau a gynhelir ynddynt.
- **Y Gymraeg:** Fel Prifddinas Cymru, mae Caerdydd yn ymrwymedig i sicrhau cydraddoldeb drwy hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg. Mewn ardaloedd cyhoeddus, bydd arwyddion newydd, fel arwyddion cyfeiriadau, paneli gwybodaeth a biniau sbwriel oll yn ddwyieithog.
- **Rhwyddineb Symudiadau:** Dylai strydoedd a gofod gysylltu â'i gilydd yn effeithiol ac ni ddylai celfi stryd rwystro symudiadau cerddwyr er mwyn sicrhau llwybrau hygrych ledled y ddinas.
- **Eglurder:** Mae lle eglur yn fan y gall pobl ei ddeall a symud drwyddo'n rhwydd. Dylai llwybrau ar hyd y ddinas fod yn glir, unigryw a hygrych drwy eu dyluniad, a gellid atgyfnerthu hyn drwy gynnig arwyddion syml ac uniongyrchol, mynegbyst, gwybodaeth i dwristiaid a chelf gyhoeddus a thrwy ddiogelu a gwella golygfeydd pwysig.
- **Ansawdd:** Dylai deunyddiau palmentydd, celfi stryd a gwaith tirlunio fod o ansawdd uchel i helpu i wella'r berthynas rhwng adeiladau a'r stryd. Dylid defnyddio deunyddiau mewn ffordd gyson i helpu i greu ardaloedd â chymeriad mwy cain, cyson ac eglur ledled y sir.
- **Taclusrwydd:** Dylai arwyddion a chelfi stryd diangen neu segur gael eu symud ymaith i dacluso strydoedd. Dylai lleoliad arwyddion traffig ystyried yr effaith bosibl ar dir cyhoeddus, gan gynnwys rhwyddineb symudiadau cerddwyr a golygfeydd ar hyd strydoedd ac o adeiladau allweddol.
- **Adeiladu a Glanhau Palmentydd:** Dylai'r dewis o ddeunyddiau palmanta ymateb i gymeriad a chyd-destun ardal. Dylent fod o ansawdd, lliw, maint a dyfnder addas, a chael eu gosod ar sylfaen ddigonol sy'n berthnasol i lefelau cysylltiedig o gerddwyr a thraffig. Rhaid hefyd ystyried a yw'r deunydd yn staenio'n rhwydd a pha mor hawdd ydyw i'w lanhau mewn perthynas â symudiadau cerddwyr a thraffig, a'r effaith ar weithgareddau cyfagos.
- **Amrywiaeth a Hyblygrwydd:** Dylai gosodiad a dyluniad tir cyhoeddus annog a hwyluso rhyngweithio cymdeithasol. Dylid gallu addasu a newid defnydd o strydoedd a mannau cyhoeddus dros amser yn sgîl newid mewn defnydd tir cyfagos neu ddatblygiadau newydd sy'n cynyddu nifer yr ymwelwyr.
- **Partneriaeth:** Mae ymgynghori ac ymgysylltu yn bwysig wrth ddatblygu mannau agored llwyddiannus. Gall gwaith cydlynol gyda grwpiau mewnol / allanol perthnasol a chymunedau lleol helpu i ddatrys problemau, datblygu datrysiadau creadigol / pragmatig a meithrin ymdeimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb.

1.4 Diogelu drwy Ddylunio

1.4.1. Nod egwyddorion 'Diogelu drwy Ddylunio' yw cynorthwyo â lleihau'r cyfleoedd i gyflawni troseddu, a lleihau'r ofn o drosedd, gan greu amgylchedd mwy diogel. Ymhlith yr egwyddorion cyffredinol mae:

- **Ansawdd amgylcheddol ac ymdeimlad o berchnogaeth:** Gall manau o ansawdd uchel sydd wedi'u cynllunio'n dda ac wedi'u hintegreiddio'n dda ag adeiladau helpu i greu ymdeimlad o le a chryfhau hunaniaeth gymunedol.
- **Goruchwyliaeth Naturiol:** dylai ardaloedd cyhoeddus gael eu goruchwyllo lle y bo'n bosibl. Bydd llefydd prysur yn eu goruchwyllo'u hunain yn naturiol.
- **Tirwedd:** Dylai tir cyhoeddus gynnig llinellau gweld clir gan osgoi greu cuddfannau.
- **Symudiad:** Dylai gosodiadau fod yn seiliedig ar hierarchaeth llwybrau sylfaenol sydd wedi'u diffinio'n glir a lleoedd a rennir nad ydynt yn effeithio'n andwyol ar ddiogelwch.
- **Goleuadau:** Gall goleuadau gwell fod yn effeithiol o ran lleihau'r ofn o drosedd, ac mewn rhai amgylchiadau leihau achosion o drosedd. Mae angen ystyried ffynonellau goleuadau gwahanol ar gyfer amgylcheddau gwahanol – rhaid parchu cymeriad yr amgylchedd lleol bob amser.
- **Celfi Stryd:** Dylid gosod eitemau lle gall eu swyddogaeth, eu dylanwad neu weithgarwch dilynol wneud cyfraniad cadarnhaol at yr amgylchedd o'u hamgylch. Dylai dyluniadau ragweld a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, a dylai deunyddiau fod yn gadarn ac yn wydn i fandaliaeth.

1.5 Dylunio Cynhwysol

1.5.1. Mae Dylunio Cynhwysol yn broses o ddylunio, adeiladu a rheoli llefydd a gofodau i sicrhau eu bod yn gweithio i gynifer o bobl â phosibl, nid rhai grwpiau'n unig. Y nod yw chwalu rhwystrau sy'n creu ymdrech ac arwahanrwydd diangen.

1.5.2. Mae amgylcheddau cynhwysol yn:

- Croesawu pawb
- Ymateb i anghenion pobl
- Cael eu defnyddio'n reddfoll
- Hyblyg
- Cynnig dewis pan na all un ateb dylunio fodloni pob gofyniad
- Addas fel y gellir eu defnyddio'n ddidrafferth ac nad oes angen eu gwahanu, a'u bod mor annibynnol â phosibl

1.5.3. Nodir deddfwriaeth yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Gellir hefyd gyfeirio at yr Egwyddorion Dylunio Cynhwysol (2006) a Chynhwysiant drwy Ddylunio (2008).

³www.designcouncil.org.uk

1.6 Lleoli Dodrefn Stryd

1.6.1. Gall celfi stryd mewn lleoliadau anhrefnus ac amhriodol effeithio ar rwyddineb symudiadau cerddwyr, yn arbennig defnyddwyr cadair olwyn a phobl â nam symudedd / nam ar y golwg.

1.6.2. Yn gyffredinol, gellir rhannu troedffordd yn bedwar darn:

- **A: Cwrbyn:** Yn rhydd o gelfi stryd er mwyn atal eitemau rhag cael eu difrodi gan gerbydau.
- **B: Ardal Celfi Stryd:** Ar gyfer coed, goleuadau, arwyddion a chelfi stryd eraill.
- **C: Ardal i Gerddwyr:** Yn rhydd o unrhyw rwystrau i alluogi cerddwyr i symud yn ddiraffferth.
- **D: Ffryntiad:** Er mwyn gallu edrych drwy ffenestri siopau mewn ardaloedd manwerthu heb amharu ar yr ardal i gerddwyr.



1.6.3. Dylid sicrhau na chyflwynir gormod o gelfi stryd er mwyn osgoi rhwystrau ac annibendod diangen. Dylid hefyd ystyried gwrthdaro posibl a achosir gan agosrwydd celfi stryd (h.y. coed / goleuadau stryd a biniau / meinciau)

1.6.4. Mewn ardaloedd i gerddwyr, gall fod o fudd grwpio neu alinio celfi stryd a dynodi'r ardaloedd hyn yn 'ardaloedd celfi stryd' gyda newid yn lliw'r palmant.

1.6.5. Dylai'r defnydd o socedi llawr gael eu hystyried fesul safle unigol o ran eitemau celfi stryd, gan gynnwys bolardiau, seddi a meinciau, yn enwedig mewn ardaloedd lle y cynhelir digwyddiadau dros dro/tymhorol er mwyn gallu eu tynnu i ffwrdd a/neu eu disodli'n hawdd.




Alinio celfi stryd / pafin gwrthgyferbyniol yn gyson



Gormod o gelfi stryd

1.7 Cydlynu Dyluniad Stryd

- 1.7.1. Wrth ddylunio a diweddarau strydoedd a manau cyhoeddus, mae angen ystyried y palet sefydledig o gelfi stryd a deunyddiau palmanta yn yr ardal gyfagos i helpu i sicrhau cysondeb y stryd.
- 1.7.2. Dylai deunyddiau palmanta hŷn (e.e. slabiau concriid mawr / palmentydd bloc patrymog) a chelfi stryd nad ydynt yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Llawlyfr Tir Cyhoeddus gael eu symud ymaith dros amser wrth i gynlluniau newydd ddod i'r amlwg.
- 1.7.3. Pan fydd ardal yn cael ei diweddarau dros gamau amrywiol, dylid nodi / dogfennu palet o ddeunyddiau o'r cychwyn cyntaf a glynu ato drwy oes y project.



Slab Arian-Llwyd

Slab Concriid Safonol

Macadam Du



Ninian Park

2. Cymeriad Strydlun

2.1 Llawlyfr Tir Cyhoeddus – Ardaloedd Cymeriad

2.1.1. Mae'r Llawlyfr Tir Cyhoeddus yn ceisio sicrhau dull cyson o ddefnyddio deunyddiau palmanta a chelfi stryd ledled y ddinas. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen i ddyluniadau tir cyhoeddus adlewyrchu ardaloedd gwahanol o gymeriad / unigrywiaeth leol ac ymateb i bwysau gwahanol bywyd bob dydd. I'r perwyl hwn, mae cyfres o bedair 'Ardal Cymeriad' wedi'u nodi ac mae pob adran o'r llawlyfr yn nodi lle dylid (neu le na ddylid) defnyddio deunyddiau a / neu gydrannau unigol o fewn y cyd-destun hwn.

2.1.2. Llawlyfr Tir Cyhoeddus – Ardaloedd Cymeriad:



Ardal A: Canol y Ddinas / Y Bae



Ardal B: Ardaloedd Cadwraeth



Ardal C: Amhreswyl



Ardal D: Preswyl

2.1.3. Dan amgylchiadau lle mae Ardaloedd yn gorgyffwrdd, dilynir yr hierarchaeth a nodir.

2.1.4. O fewn pob pennod, yn ogystal â deunyddiau / cydrannau 'safonol' y Llawlyfr, mae cyfres o eitemau 'tirnod' manyleb uwch hefyd wedi'u nodi, y gellir eu defnyddio i godi safonau dylunio ar gyfer ardal a helpu i ddiffinio a gwella safleoedd porth ac ardaloedd o gymeriad / pwys arbennig o fewn eu hamgylchedd.

Ardal Cymeriad A: Canol y Ddinas / Y Bae

- 2.1.5. Mae'r palet ar gyfer canol y ddinas yn nodi deunyddiau o'r radd flaenaf a gofynion perfformiad cysylltiedig i adlewyrchu ei rôl fel canolbwynt masnach, cyflogaeth, siopa, hamdden, diwylliant / gweithgareddau cymdeithasol ac i gydnabod y ffaith fod cynifer o bobl yn ymweld â'r ardal.

Egwyddorion Allweddol:

- Prif Ddeunydd Palmanta: Ithfaen (3.3.1)
- Cerrig Cyrbau Safonol: Cadwraeth
- Cerrig Cyrbau Nodedig: Ithfaen
- Celfi Stryd: Dyluniad Canol y Ddinas (fel y nodir)



Ardal Cymeriad B: Ardaloedd Cadwraeth (fel y nodir yn CDLI ar Adnau Caerdydd 2006-2026):

- 2.1.6. Diben y deunyddiau a nodir yw sicrhau bod tir cyhoeddus yn cadw, gwella ac integreiddio'n briodol â'r amgylchedd hanesyddol.

Egwyddorion Allweddol:

- Dyluniad Palmant 1: Ailosod pennwn hanesyddol (lle y bo'n bresennol) (3.3.2D)
- Dyluniad Palmant 2: Macadam du â bandiau nodweddiadol (3.3.6)
- Dyluniad Palmant 3: Pennwn newydd ar gyfer cynlluniau / pyrth tirnod (3.3.2B)
- Cerrig Cyrbau Safonol: Cadwraeth
- Cerrig Cyrbau Nodedig: Ithfaen
- Celfi Stryd: Dyluniad Cadwraeth (fel y nodir)

Ardal Cymeriad C: Amhreswyl:

- 2.1.7. Mae'r palet hwn yn berthnasol i bob math o ddefnydd tir nas nodir ym mharagraffau 2.1.5 / 2.1.6 / 2.1.8 ac mae'n cynnwys canolfannau ardaloedd, lleol a chymdogaethol, parciau busnes, archfarchnadoedd, ysgolion, parciau a chyfleusterau hamdden ac ati, ac ardaloedd masnachol/diwydiannol, boed yn rhai newydd neu'n rhai sydd eisoes yn bodoli. Mae'r palet wedi'i ddewis at ddefnydd dwys ac mae'n rhoi hyblygrwydd dylunio a fydd yn galluogi i ardaloedd o gymeriad lleol unigryw gael eu creu.

Egwyddorion Allweddol:

- Prif Ddeunydd Palmanta: Slab Concridd (3.3.4A)
- Cerrig Cyrbau Safonol: Cadwraeth
- Bandiau Nodweddiadol Safonol / Ardaloedd Celfi Stryd: Cynnyrch Concridd

Ardal Cymeriad D: Preswyl:

- 2.1.8. Caiff y palet hwn ei ddefnyddio ar safleoedd datblygu newydd ac ardaloedd preswyl sydd eisoes yn bodoli ledled y Ddinas.

Egwyddorion Allweddol (Ardaloedd Preswyl Newydd):

- Prif Ddeunydd Palmentydd: Blocliau / setiau concriid (3.3.4C-E)
- Cwrbynfaen: Concriid neu gadwraeth
- Arwynebau/Cyrtiau Parcio a rennir Blocliau palmant / bloc athraidd (3.3.4C-E)
- Ffyrdd beicio: Macadam (3.3.6)

Egwyddorion Allweddol (Ardaloedd Preswyl Presennol):

- Dyluniad Palmant 1: Defnydd parhaus o ddeunyddiau'r Llawlyfr Tir Cyhoeddus (fel y nodir ym mharagraff 3.3)
- Dyluniad Palmant 2: Macadam Du (3.3.6)
- Cwrbyn Safonol: Concriid neu gadwraeth (i gyfateb i'r presennol)



High Street

3. Troedffyrdd, Ffyrdd Cerbydau ac Arwynebau

3.1 Arwyneb Troedffyrdd

3.1.1. Un o nodau'r Llawlyfr Tir Cyhoeddus yw lleihau nifer y deunyddiau palmanta a ddefnyddir ledled y ddinas. Ceir pum deunydd sefydledig sy'n ffurfio'r palet a argymhellir:



Ithfaen



Pennwn



Palmantwyr Clai



Cynnyrch Concrïd



Macadam

3.1.2. I sicrhau cysondeb yn y strydlyn ac i helpu gyda gwaith cynnal a chadw ac effeithlonrwydd adnoddau yn y dyfodol, mae adran 3.3 yn nodi manylebau cyffredinol ar gyfer pob deunydd.

3.2 Arwynebau Ffyrdd Cerbydau

3.2.1. Y prif ddeunydd ar gyfer arwynebau ffyrdd cerbydau yw macadam du.

3.2.2. Bydd angen ystyried palmant bloc (a phalmant bloc hydrin) fesul safle a dylid ond ei ddefnyddio o fewn cyd-destun gofod a rennir / mentrau blaenoriaeth i gerddwyr ac o fewn meysydd parcio / ar arwynebau meysydd parcio.

3.2.3. Yng nghanol y ddinas, gellir defnyddio palmant bloc i wella croesfannau i gerddwyr lle maent wedi'u gosod ar yr un lefel â'r ffordd gerbydau.

3.3 Palet Deunyddiau Palmanta

3.3.1: Ithfaen



Manyleb:	<p><u>Slabiau</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Lliw: Pinc (Arlliwiau Cymysg), Gwyn neu Lwyd • Gorffeniad: Gwead Fflam / Ymyl Llifiedig • Dimensiynau: (600-900) x 600 x 65mm llei. • Trwch: Troedffordd 65mm / Traffig o leiaf 80mm 	<p><u>Planciau</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Lliw: Du • Gorffeniad: Gwead Fflam / Ymyl Llifiedig • Trwch: (300,450,600) x 150 x o leiaf 80mm
----------	---	--

Ardaloedd Cymeriad Llawlyfr Tir Cyhoeddus – Defnydd a Argymhellir o Ddeunyddiau:

Canol y Ddinas / Y Bae	<ul style="list-style-type: none"> • Troedffyrdd • Gofod Cerddwyr â Thraffig a Di-draffig 	<ul style="list-style-type: none"> • Ardaloedd Celfi Stryd
Ardaloedd Cadwraeth	<ul style="list-style-type: none"> • Dd/B 	<ul style="list-style-type: none"> • Dd/B
Amhreswyl	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Deunydd Troedffordd Nodedig 	<ul style="list-style-type: none"> • Deunydd Tirnod (Ardal Celfi Stryd)
Preswyl	<ul style="list-style-type: none"> • Dd/B 	<ul style="list-style-type: none"> • Dd/B

3.3.1: Ithfaen



Manyleb:	<p><u>Blociau</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Lliw: Llwyd neu wyn • Gorffen: Fflamog/Ymyl Llifiedig • Dimensiynau: 200 x 100 x 80mm llei. 	<p><u>Setiau</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Colour: Du, Llwyd, Gwyn, Pinc (cymysg) • Gorffeniad: Fflamog / Ymyl Llifiedig • Dimensiynau: 100 x 100 x 80mm llei.
----------	---	--

Ardaloedd Cymeriad Llawlyfr Tir Cyhoeddus – Defnydd a Argymhellir o Ddeunyddiau:

Canol y Ddinas / Y Bae	<ul style="list-style-type: none"> • Cyrsiau Bandio • Croesfannau i Gerddwyr • Ardaloedd â Thraffig 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyrsiau Bandio • Mannau Parcio / Llwytho
Ardal Gadwraeth	<ul style="list-style-type: none"> • Cwrs Bandio Tirnod 	<ul style="list-style-type: none"> • Cwrs Bandio Tirnod
Amhreswyl	<ul style="list-style-type: none"> • Cwrs Bandio Tirnod 	<ul style="list-style-type: none"> • Cwrs Bandio Tirnod
Preswyl	<ul style="list-style-type: none"> • N/A 	<ul style="list-style-type: none"> • N/A

3.3 Palet Deunyddiau Palmanta

3.3.2A:
Pennant Llifiedig



3.3.2B:
Pennant Fflamog



Manyleb:

Slabiau (Gorffeniad Llifiedig)

- Lliw: Lliw Cymysg neu Las
- Gorffeniad: Llifiedig
- Lled: 300, 450 a 600mm
- Trwch: o leiaf 65mm

Slabiau (Gorffeniad Fflam)

- Lliw: Glaslwyd
- Gorffeniad: Fflam
- Lled: 300, 450 a 600mm
- Trwch: o leiaf 65mm

Ardaloedd Cymeriad Llawlyfr Tir Cyhoeddus – Defnydd a Argymhellir o Ddeunyddiau:

Canol y Ddinas / Y Bae

- Troedffyrdd
- Ardaloedd Didraffig i Gerddwyr

▪ Dd/B

Ardaloedd Cadwraeth

- Dd/B

- Troedffyrdd
- Ardaloedd Didraffig i Gerddwyr

Amhreswyl

- Dd/B

▪ Dd/B

Preswyl

- Dd/B

▪ Dd/B

3.3.2C:
Bloc Pennant



3.3.2D:
Pennant Adferedig



Manyleb:

Blociau / Setiau (Gorffeniad Llifiedig neu Fflam)

- Lliw: Lliw Cymysg, Glas neu Laslwyd
- Gorffeniad: Llifiedig neu Fflam
- Blociau: o leiaf 200 x 100 x 65mm
- Setiau: o leiaf 100 x 100 x 65mm

Slabiau a Adferwyd

- Lliw: Glaslwyd
- Gorffeniad: Dd/B
- Trwch: Mwy na 65mm

Ardaloedd Cymeriad Llawlyfr Tir Cyhoeddus – Defnydd a Argymhellir o Ddeunyddiau:

Canol y Ddinas / Y Bae

- Cyrsiau Bandio (Gorffeniad Llifiedig)

- Atgyweirio / Gwella Troedffyrdd Presennol ac Ardaloedd Didraffig i Gerddwyr

Ardaloedd Cadwraeth

- Cyrsiau Bandio (Gorffeniad Fflam)

- Atgyweirio / Gwella Troedffyrdd Presennol ac Ardaloedd Didraffig i Gerddwyr

Amhreswyl

- Dd/B

▪ Dd/B

Preswyl

- Dd/B

▪ Dd/B

3.3 Palet Deunyddiau Palmanta

3.3.3: Palmantwyr Clai



Manyleb:

Palmantwr Clai Coch

- Gorffeniad: Wyneblusg Siamffrog
- Dimensiynau*: o leiaf 200 x 100 x 65mm

Palmantwr Clai Glas

- Gorffeniad: Wyneblusg Siamffrog
- Dimensiynau*: o leiaf 200 x 100 x 65mm

Ardaloedd Cymeriad Llawlyfr Tir Cyhoeddus – Defnydd a Argymhellir o Ddeunyddiau:

Canol y Ddinas / Y Bae	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Troedffyrdd (Bae yn unig) ▪ Ardaloedd Didraffig i Gerddwyr (Bae yn unig) 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cysiau Bandio
Ardaloedd Cadwraeth	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dd/B 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dd/B
Amhreswyl	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dd/B 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dd/B
Preswyl	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dd/B 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dd/B

3.3.4 A: Slabiau Concridd



Manyleb:

Gweadog

- Lliw: Arian-lwyd neu 'Ar y Silff' opsiynau
- Gorffeniad: Gweadog / agreg agored
- Dimensiynau*: o leiaf 400 x 400 x 65mm

Safonol

- Lliw: Llwyd
- Dimensiynau*: o leiaf 400 x 400 x 65mm

Ardaloedd Cymeriad Llawlyfr Tir Cyhoeddus – Defnydd a Argymhellir o Ddeunyddiau:

Canol y Ddinas / Y Bae	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Troedffyrdd (Arian-lwyd yn unig) ▪ Ardaloedd Di-draffig i Gerddwyr (Arian-lwyd yn unig) 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dd/B
Ardaloedd Cadwraeth	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dd/B 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dd/B
Amhreswyl	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Troedffyrdd ▪ Ardaloedd Didraffig i Gerddwyr 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Troedffyrdd ▪ Ardaloedd Didraffig i Gerddwyr
Preswyl	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dd/B 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dd/B

*: Gall y trwch gael ei leihau yn ôl argymhellion y gweithgynhyrchwr

3.3 Palet Deunyddiau Palmanta

3.3.4B: Planciau Concrid



3.3.4C: Blociau Concrid



Manyleb:

Planciau

- Lliwiau: Opsiynau 'Ar y Silff'
- Gorffeniad: Gweadog / Agreg Agored
- Trwch*: (300,450,600) x 150 x o leiaf 65mm

Bloc Safonol neu

Weadog / Bloc Agreg Agored

- Lliwiau: Opsiynau 'Ar y Silff'
- Patrwm Bond: Igam-ogam / Uniad Brics ar eu Hyd
- Dimensiynau: o leiaf 200 x 100 x 80mm

Ardaloedd Cymeriad Llawlyfr Tir Cyhoeddus – Defnydd a Arghymhellir o Ddeunyddiau:

Canol y Ddinas / Y Bae

- Dd/B

- Ardaloedd â Thraffig
- Cyrsiau Bandio

Ardaloedd Cadwraeth

- Dd/B

- Dd/B

Amhreswyl

- Ardaloedd Celfi Stryd

- Troedffyrdd
- Arwyneb Meysydd Parcio / Mannau Parcio
- Cyrsiau Bandio

Preswyl

- Dd/B

- Troedffyrdd
- Arwynebau a Rennir
- Meysydd Parcio / Mannau Parcio
- Cyrsiau Bandio

3.3.4D: Setiau Concrid



3.3.4E: Setiau Gorgyffyrddol



Manyleb:

Setiau

- Lliw: Opsiynau 'Ar y Silff'
- Patrwm Bond: Uniad Brics ar eu Hyd
- Trwch: (120,160,240) x 160 x o leiaf 80mm

Gorgyffyrddol

- Lliw: Opsiynau 'Ar y Silff'
- Patrwm Bond: Uniad Brics ar eu Hyd
- Trwch: (120,160,240) x 160 x o leiaf 80mm

Ardaloedd Cymeriad Llawlyfr Tir Cyhoeddus – Defnydd a Arghymhellir o Ddeunyddiau:

Canol y Ddinas / Y Bae

- Dd/B

- Dd/B

Ardaloedd Cadwraeth

- Cyrsiau Bandio

- Cyrsiau Bandio

Amhreswyl

- Troedffyrdd
- Ardaloedd â Thraffig a Di-draffig i Gerddwyr
- Arwyneb Meysydd Parcio / Mannau Parcio
- Cyrsiau Bandio

- Troedffyrdd
- Ardaloedd â Thraffig a Di-draffig i Gerddwyr
- Arwyneb Meysydd Parcio / Mannau Parcio
- Cyrsiau Bandio

Preswyl

- Troedffyrdd
- Ardaloedd Traffig / Arwynebau a rennir
- Meysydd Parcio / Mannau Parcio
- Cyrsiau Bandio

- Troedffyrdd
- Ardaloedd Traffig / Arwynebau a rennir
- Meysydd Parcio / Mannau Parcio
- Cyrsiau Bandio

3.3 Paving Materials Palette

3.3.4F:
Palmant Bloc Concrïd
Hydrin (SDCau)



3.3.5:
Gro Resin



Manyleb:

SDCau (asesir fesul safle)

- Lliw: Opsiynau 'Ar y Silff'
- Patrwm Bond: Igam-ogam / Uniad Brics ar eu Hyd
- Dimensiynau: o leiaf 200 x 100 x 80mm

Graean Rhwym Resin

- Lliw: Llwydfelyn (neu 'opsiwn ar y silff')

Ardaloedd Cymeriad Llawlyfr Tir Cyhoeddus – Defnydd a Argymhellir o Ddeunyddiau:

Canol y Ddinas / Y Bae	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dd/B 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dd/B
Ardaloedd Cadwraeth	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dd/B 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dd/B
Amhreswyl	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Arwyneb Meysydd Parcïo 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dd/B
Preswyl	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ardaloedd Traffig / Arwynebau a rennir ▪ Meysydd Parcïo / Mannau Parcïo 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ardaloedd Celfi Stryd (ystyir fesul safle)

3.3.6:
Macadam



Manyleb:

Troedffordd

- Lliw: Du
- Cwrs Arwyneb: 6mm

Ffordd gerbyddau

- Lliw: Du
- Cwrs Arwyneb: 10mm / 14mm

Ardaloedd Cymeriad Llawlyfr Tir Cyhoeddus – Defnydd a Argymhellir o Ddeunyddiau:

Canol y Ddinas / Y Bae	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Troedffordd 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ffordd gerbyddau
Ardaloedd Cadwraeth	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Troedffordd 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ffordd gerbyddau
Amhreswyl	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Troedffordd 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ffordd gerbyddau
Preswyl	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Troedffordd 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ffordd gerbyddau

NODER: Lle maent yn ffinio â llain laswellt, dylai troedffyrdd graean rhwym macadam a resin gael eu rhwymo ag ymyl concrïd pen gwastad 50mm.

3.4 Dulliau Adeiladu Palmentydd

- 3.4.1. Wrth ddylunio cynllun tir cyhoeddus, rhaid sicrhau dealltwriaeth o ddefnydd terfynol y stryd a bod y dyluniad / gwaith o adeiladu unrhyw ardal balmantog yn briodol, yn arbennig mewn ardaloedd â thraffig a darnau o balmant y mae'n debygol y bydd cerbydau'n gyrru arnynt.
- 3.4.2. Mae'r gwaith o adeiladu'r sylfaen yn bwysig oherwydd gallai'r arwyneb chwalu yn ei habsenoldeb. Gall deunyddiau palmanta o ansawdd uchel a slabiau o ddyfnder digonol fethu o hyd os nad yw'r sylfaen a osodir yn addas at y defnydd a wneir o'r stryd neu fan cyhoeddus. Bydd angen triniaeth arbennig ar elfennau palmanta mawr mewn ardaloedd lle mae cerbydau'n debygol o yrru arnynt i sicrhau bod yr unedau'n aros yn un-darn gan beidio â chracio.

3.5 Egwyddorion Cyffredinol Adeiladu Palmant:

Deunyddiau Naturiol (h.y. Ithfaen neu Bennwn), Troedffordd / Ffordd Gerbydau:

Slab	65mm i 80mm
Deunydd Sylfaen	O leiaf 30mm o Steintec (neu forter deunydd sylfaen arbenigol tebyg)
Sylfaen Deunydd Gronynnol Rhwym Sment (CBGM)	150mm i 300mm yn dibynnu ar lwyth traffig
Is-sylfaen	Yn ôl y gofyn ar sail cyflwr y tir

Cynnyrch Concrid / Clai, Troedffordd:

Slab	65mm i 80mm (neu'n unol ag argymhellion y gweithgynhyrchwr)
Deunydd Sylfaen	500 o dywod miniog wedi'i gywasgu i 30mm
Sylfaen	O leiaf 100mm
Is-sylfaen	Yn ôl y gofyn ar sail cyflwr y tir

Cynnyrch Concrid, Ffordd Gerbydau:

Slab	80mm (neu'n unol ag argymhellion y gweithgynhyrchwr)
Deunydd Sylfaen	500 o dywod miniog wedi'i gywasgu i 30mm
Sylfaen	O leiaf 200mm
Is-sylfaen	Yn ôl y gofyn ar sail cyflwr y tir

- 3.5.1 Mae rhagor o Ganllawiau ym Manylebau Priffyrdd Caerdydd

3.6 Palmant Botymog

3.6.1. Arwyneb Pothell > I'w ddefnyddio ar groesfannau a chroesfannau nas rheolir i gerddwyr:



- Dimensiynau: 400 x 400 x 50mm
- Pothelli: 36 pothell fesul slab
- Gorffeniad: Concridd gweadog neu garreg naturiol
- Lliwiau: Coch ar groesfannau a reolir / Llwydfelyn neu ddeunydd sy'n gysylltiedig â'r dyluniad cynllun ehangach ar groesfannau nas rheolir
- Croesfannau a Reolir: Sebra, Pelican, Pâl, Twcan a chyffyrdd ag arwyddion traffig i gerddwyr

3.6.2. Bar Crwn > Rhybudd o bresenoldeb peryglon penodol (camau neu LRT ar y stryd):



- Dimensiynau: 400 x 400 x 50mm
- Arwyneb: Bar crwn uwch parhaus
- Gorffeniad: Concridd gweadog neu garreg naturiol
- Lliwiau: Llwydfelyn neu'n gysylltiedig â dyluniad y cynllun ehangach
- Alinio: Yn llorweddol i'r cyfeiriad teithio.

3.6.3. Bar Pen Gwastad > Lle bo troedffordd yn ymuno â llwybr a rennir (cerdded / beicio):



- Dimensiynau: 400 x 400 x 50mm
- Arwyneb: Bar pen gwastad uwch parhaus
- Gorffeniad: Concridd gweadog neu garreg naturiol
- Lliwiau: Llwydfelyn neu'n gysylltiedig â dyluniad y cynllun ehangach
- Alinio: Yn llorweddol i'r cyfeiriad teithio (troedffordd / yn fertigol i'r cyfeiriad teithio (llwybr beiciau)).

3.6.4. Byrddwyr Palmant Botymog:



- Slabiau palmant: Botymog yn ffinio'n uniongyrchol â'r slab palmant cyffiniol
- Palmant bloc: Stribyn ymyl concridd pen gwastad 50mm
- Macadam: Stribyn ymyl concridd pen gwastad 50mm

3.6.5. Canllawiau Pellach: Yr Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau (DETR), Guidance on the use of tactile paving surfaces (5 Mehefin 2007)

3.7 Cerrig cyrbau

3.7.1. Cwrbyn Cadwraeth: Dyluniad Safonol y Sir:



- Lliw: Llwydfelyn neu'n gysylltiedig â dyluniad y cynllun ehangach

3.7.2. Cwrbyn Concridd: Lle bo angen i gyfateb â'r hyn sydd yno'n barod:



- Lliw: Dd/B – concridd

3.7.3. Cyrbau Ithfaen Deunydd tirnod ar gyfer Canol y Ddinas ac Ardaloedd Cadwraeth:



- Lliw: Llwydfelyn neu'n gysylltiedig â dyluniad y cynllun ehangach

3.7.4. Byrddwyr Bws:



- Dimensiynau: 180mm ar i fyny
- Gorffeniad Safonol: Concridd Rhag-gastiedig
- Gorffeniad Tirnod: Ithfaen

3.8 Sianeli Ffyrdd Cerbydau



- I'w ystyried ar sail pob safle unigol
- Dimensiynau: 255 X 125mm
- Gorffeniad Safonol: Concrid
- Gorffeniad Tirnod: Ithfaen

3.9 Cyrsiâu Bandio

- I'w ystyried ar sail pob safle unigol
- Un deunydd cwrs bandio i'w ddefnyddio ym mhob rhan o gynlluniau unigol
- Isafswm maint uned 100 x 100mm
- Uchafswm uniad 8mm



3.10 Caeadau Archwilio

- Caeadau mewnlenni palmanta cilfachog i'w defnyddio lle y caniateir hynny
- Caeadau archwilio i'w halinio gyda chyfeiriad y palmant
- Deunydd a fewnosodir a gosodiad y palmant i gyfateb / alinio â'r cynllun cyffredinol
- Dylai caeadau archwilio ffinio'n uniongyrchol â slabiau palmant cyffiniol ac ni ddylent gynnwys border bric



3.11 Sianeli Draenio (I'w pennu fesul safle)

3.11.1. Sianel Capasiti Uchel



- Deunydd: Concridd neu garreg naturiol
- Dimensiynau: Amrywiol

3.11.2. Sianel Palmant Bloc



- Deunydd: Concridd neu garreg naturiol
- Dimensiynau: Gwaith bloc 200 x 100 x 65 neu 80mm
- Gosodiad: Sianel 3 bloc neu 4 bloc

3.11.3. Sianel Rychog



- Deunydd: Concridd neu garreg naturiol
- Dimensiynau: 255 x 914 x 75mm (rhychau 11mm)

3.11.4. Draen Slot



- Deunydd: Dur galfanedig neu haearn bwrw
- Dimensiynau: Amrywiol

3.12 Marciau Arwyneb



- Ni chaiff marciau arwyneb lliw fel arfer eu defnyddio i bennu ffiniau ar y briffordd, h.y. lonydd bws, llwybrau beicio.

3.13 Marciau Ffordd



- Dylai marciau ffordd a ddefnyddir i reoleiddio traffig fod yn glir, wedi'u lleoli'n dda, a chael eu defnyddio gyn lleied â phosibl i gyfleu gwybodaeth hanfodol yn unig.
- Llinellau melyn 50mm o led i'w defnyddio drwy BS381C rhif 310 (Briallu) i gyfrannu at gymeriad a golwg cynllun tir cyhoeddus (e.e. o fewn Ardaloedd Cadwraeth)

3.14 Footway Crossovers



- Dylai llwybrau croesi i gerbydau gael eu hadeiladu o'r un deunydd (gan gynnwys gosodiad / dimensiynau slabiau) â'r troedffyrdd cyffiniol.
- Bydd angen i'r llwybr croesi (dyfnder slabiau / manyleb is-sylfaen) allu gwrthsefyll y gwaith llwytho a fydd yn cael ei wneud arno (h.y. ceir 'ysgafn' neu gerbydau cyflenwi neu nwyddau 'trwm'). Cyfeiriwch at Baragraff 3.5.
- Dylai lled y llwybr croesi alluogi cerbydau sy'n ei ddefnyddio i wneud hynny heb yrru ar y droedffordd gyffiniol.
- Dylid defnyddio cyrbau pontio i ffurfio'r trefniant cwrbyn isel.
- Rhaid cael caniatâd cynllunio er mwyn creu neu addasu lonydd gwrthlif ar Ffyrdod Dosbarthiadol (h.y. y rheini y rhoddwyd rhif iddynt â'r llythrennau A, B neu C ar y blaen).

3.15 Croesfan Reoledig i Gerddwyr

- Dylai cyfleusterau croesi i gerddwyr fod mor syml a thaclus â phosibl gan integreiddio'n llawn gyda dyluniad y stryd drwy'r dewis o ddeunyddiau palmanta a chelfi stryd.
- Y dyluniad a ffefrir yw trefniant syth ar draws oherwydd gall greu llai o oedi i gerddwyr ac mae'n gwneud pethau'n haws i fygis a chadeiriau olwyn (a beicwyr wrth groesfannau Twcan).
- Dylid ystyried yr angen am, a lleoliad, rheiliau gwarchod fel rhan o archwiliad diogelwch pob pwynt croesi, ac ni ddylid eu gosod fel mater o drefn. Ar ynysoedd croesi gwasgarog, gall cwrbyn uwch gynnig datrysiad amgen ar gyfer pennu ffiniau'r llwybr cerddwyr.
- Yng nghanol y ddinas, gellir defnyddio palmant bloc ithfaen i wella croesfannau i gerddwyr lle maent wedi'u gosod ar yr un lefel â'r ffordd gerbydau.
- Colofnau goleuadau traffig: Lliw safonol Gloywddu (RAL9005)



Croesfan wasgarog heb reiliau canllaw yn Mary Ann Street



Croesfan syth yn Adam Street



Blociau gwenithfaen yng Nghanol y Ddinas

3.16 Darpariaeth Feicio

- Mae'r cyfleusterau beicio ledled y sir yn cynnwys; lonydd beicio ar ffyrdd cerbydau, llwybrau beicio oddi ar ffyrdd cerbydau a llwybrau cyfagos / a rennir.
- Lle bo angen arwyddion i bennu ffiniau llwybrau / traciau beicio oddi ar ffyrdd cerbydau, dylent fod yn syml, cryno ac mor fach â phosibl. Bydd y niferoedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau, a dylid eu lleoli'n ofalus.
- Canllawiau Dylunio ar gyfer Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (Rhagfyr 2014) a Chanllaw Dylunio Beicio Caerdydd (Gorffennaf 2011)



Arwydd ailadrodd anymwithgar



Cyfleuster beicio ym Mhont Caerdydd

3.17 Cilfannau

- Dylai strydoedd â chilfannau fod yn ddigon llydan i ddarparu'r gofod ychwanegol sydd ei angen heb gael effaith sylweddol ar symudiadau cerddwyr.
- Er mwyn cynnal llinell balmant gyson ar hyd y stryd, dylai cilfannau gael eu rhwymo gan gwrbyn sy'n cyd-fynd â'r droedffordd gyffiniol.
- Dylai cilfannau gael eu hadeiladu gyda deunydd sy'n ategu'r droedffordd gyffiniol, h.y. mewn ardaloedd o'r ddinas lle mae ithfaen wedi'i nodi ar gyfer troedffyrdd, dylid defnyddio bloc ithfaen cyfatebol
- Oherwydd y traffig trwm ar gilfannau, bydd angen defnyddio deunydd a dull adeiladau cadarn i wrthsefyll y lefel uchel o symudiad cerbydau.



Cilfan palmant bloc ithfaen yn Heol Eglwys Fair

3.18 Arwynebau Uwch Ffyrdd Cerbydau

3.18.1. Byrddau Uwch, Croesfannau i Gerddwyr a Mesurau Arafu Traffig:


- Dylai byrddau uwch gael eu hadeiladu â macadam. Dylid osgoi defnyddio palmant bloc a cherrig cyrbau, yn arbennig ar lwybrau lle ceir llif traffig dwys.
- Egwyddorion Dylunio: Yn gyffredinol dylai rampiau fod â graddiant 1:16, gan godi i uchafswm o 75mm gyda llwyfan o 6m ar y lleiaf.



Croesfan bwrdd uwch macadam yn Stryd James

3.19 Arwynebau a Rennir:

- O fewn ardaloedd preswyl ac mewn achosion lle mae arwyneb y ffordd gerbydau yn codi tuag at neu ar yr un lefel â'r droedffordd gyffiniol, dylid adeiladu'r 'parth pontio' (ramp) gyda macadam.
- Egwyddorion Dylunio: Yn gyffredinol, dylai fod gan rampiau raddiant o 1:16 gyda chodiad o 75mm ar y mwyaf.





Canada Road

4. Celfi Stryd

4.1. Standiau Beic

4.1.1. Dyluniad Safonol y Sir:



- Steil 'Sheffield'
- Maint: 750 X 750mm
- Gorffeniad: Dur gwrthstaen gloyw (Canol y Ddinas / Bae neu Ddyluniad Tirnod), dur galfanedig neu gôt powdr polyester
- Opsiynau Lliw: Gloywddu (RAL 9005) neu Wyrdd Mwsogl (RAL 6005)

4.1.2. Manylion Gosodiad Safonol:

- Standiau i'w gosod 1200mm ar wahân (isafswm o 1000mm ond yn dderbyniol lle bo lle yn brin)
- Standiau i'w gosod 2000mm ar wahân (isafswm o 1800mm ond yn dderbyniol lle bo lle yn brin)
- Y gwaelod i'w osod ar sylfaen concrid yn ôl manyleb y gweithgynhyrchwr
- Drilio arwyneb gorffenedig y palmant i osod y standiau

4.1.3. Lan nad yw standiau beiciau wrth ymyl celfi stryd eraill, dylai'r rhai ar ddeupen y standiau gynnwys rheilins tapio mewn lliwiau cyferbyniol i gynorthwyo pobl â nam ar y golwg:



4.2. Binau Sbwriel a Binau Ailgylchu (Canol y Ddinas/y Bae)

4.2.1. Bin Sbwriel:

- Maint: 1020 x 535 x 535mm
- Capasiti o 120 litr



4.2.2. Bin Sbwriel / Ailgylchu Cyfunol:

- Maint: 1020 x 915 x 535mm
- Capasiti o 240 litr



4.2.3. Nodweddion Safonol (Bin Sbwriel a Bin Sbwriel / Ailgylchu Cyfunol):

- Opsiynau Lliw: Gloywddu (RAL 9005), Gwyn Alwminiwm (RAL 9006) neu Wyrdd Mwsogl (RAL 6005)
- Deunydd: Dur
- Gorffeniad: Côt Powdr Polyester
- 4 agoriad sbwriel
- Pen Pyramid gyda blwch llwch
- Drws clep ar y blaen gyda mecanwaith cloi o fanyleb Cyngor Caerdydd
- Sylfaen: 4 twll gosod ar lefel y llawr i osgoi budred rhag ymgasglu o amgylch y gwaelod.
- Cynhwysydd mewnol: Leiniad polythen ag ymyl diogelwch uchaf a 2 handlen
- Blwch dripio gwrth-ddŵr a / neu gynhwysydd mewnol i atal gollyngiadau.
- Agoriadau dur gwrthstaen
- Testun a darluniau dwyieithog: Wedi'u torri i mewn i'r binau â laser gydag (1) plât du ar gyfer binau arian, (2) plât arian ar gyfer binau dy a gwyrdd a (3) plât gwyrdd ar gyfer testun Ailgylchu.
- Bandiau Gwelededd: Wedi'u torri i mewn i'r bin gyda (1) laser gyda phlât coch adlewyrchol neu (2) dau fand o liwiau cyferbyniol.

4.2 Binau sbwriel (ardaloedd eraill)

4.2.4. Bin Sbwriel:



- Maint: 1088 x 600 x 600mm
- Capasiti 112 litr

- Deunydd: Polythen trwm
- 4 agorfa postio sbwriel
- Pen pyramid â blwch llwch crwn
- Agoriad blaen "cau'n glep" ac sy'n cloi'n unol â manyleb Cyngor Caerdydd
- Gwaelod: 4 twll cloi a fflys sefydlog ar y llawr i atal budredd rhag cronni.
- Cynhwysydd mewnol: Leiner polythen ag ymyl diogelwch arno a 2 handlen
- Gorffeniad: Du, gyda lliw cyferbyniol llythrennau aur / bandiau gweledd
- Testun dwyieithog ('Sbwriel' / 'Litter') a 2 logo Cyngor Caerdydd

4.2.5. Bin ar Bostyn (i'w ystyried yn ôl safle)



- Maint: 711 x 432 x 318mm
- Capasiti 50 litr

- Deunydd: Corff a chaead polythen â bracedi sefydlog safonol
- Gwrth uwchfioled a chadarn
- Caead sy'n cloi ben ei hun
- Gorffeniad: Du, gyda lliw cyferbyniol (aur) logo Cyngor Caerdydd

4.2.6. Gall binau ar bostyn fod yn ddefnyddiol mewn ardaloedd heb fawr o le lle mae'n amhriodol gosod bin sbwriel sy'n sefyll ben ei hun. Ond ni ddylid eu defnyddio mewn ardaloedd prysur iawn gan y byddant yn gorlifo'n gyflym.

4.2.7. Dylai binau ar bostyn gael eu gosod ar uchder priodol gan ystyried y potensial i rwystro cerddwyr.

4.3. Bolardiau

4.3.1. Steil 1: Dur Gwrthstaen:



Canol y Ddinas/Dyluniad Tirnod

- Diamedr 141mm
- Uchder 900mm
- Wedi'i danio â gleiniau / Pen gloyw
- Band gweledd

- Opsiwn Dylunio 1: Gwaelod wedi'i Osod
- Opsiwn Dylunio 2: Cludadwy / Socedog



Dyluniad Safonol Sir Gyfan

- Diamedr 140mm
- Uchder 1000mm
- Dur di-staen
- Pen rhannol-dôm
- Band gweledd

- Opsiwn Dylunio 1: Gwaelod wedi'i Osod
- Opsiwn Dylunio 2: Cludadwy / Socedog

4.3.2. Steil 2: Dyluniad Safonol y Sir: Haearn Bwrw:



- Diamedr 227mm
- Uchder 985mm
- Haearn Bwrw
- Band gweledd adlewyrchol

- Opsiwn Dylunio 1: Gwaelod wedi'i Osod
- Opsiwn Dylunio 2: Cludadwy / Socedog

4.3.3. Steil 3: Dyluniad Safonol y Sir: Polywrethan (y gellir eu hadlamu):



- Diamedr 200mm (ar y gwaelod)
- Uchder 967mm
- Polywrethan
- Band gweledd adlewyrchol

- Opsiwn Dylunio 1: Gwaelod wedi'i Osod
- Opsiwn Dylunio 2: Cludadwy / Socedog

4.3.4. Steil 4: Dyluniad Safonol y Sir: Pren:



- Diamedr 200mm
- Uchder 1000mm
- Pren caled
- Band gweledd adlewyrchol

- Opsiwn Dylunio 1: Gwaelod wedi'i Osod
- Opsiwn Dylunio 2: Cludadwy / Socedog

4.4. Bolardiau PAS68: Dyluniad Safonol y Sir:

4.4.1. Mae BSI PAS68 yn ddsbarthiad perfformiad ar gyfer rhwystrau diogelwch cerbydau (a'u sylfeini) lle gellid cael gwrthdrawiadau llorweddol. Cynhelir profion ar amrywiaeth o gyflymderau gyda mathau gwahanol o gerbydau i bennu sgôr gwrthdaro lle atelir cerbyd rhag torri drwy'r rhwystr.

4.4.2. Bydd y sgôr PAS68 ym mhob safle unigol yn amrywio yn ôl gosodiad penodol y strydoedd cyfagos a bydd angen cynnal Asesiad Deinameg Cerbydau ar gyfer pob lleoliad.

4.4.3. Ni ddylai'r gofod (aer) mwyaf rhwng bolardiau PAS68 fod yn fwy nag 1.2 metr.

4.4.4. Dyluniad Llawes Safonol: Llawes dur gwrthstaen, pen crwn, dau fand gweledded du

4.4.5. Bolardiau Sefydlog:



- Diamedr: 219 neu 323mm (gan gynnwys llawes)
- Uchder: 1000mm
- Sylfaen: Mownt Bas

4.4.6. Bolardiau Awtomataidd:



- Diamedr: 209 neu 305mm
- Uchder: 1000mm

4.4.7. Bolardiau Cymorth Liff:



- Diamedr: 203mm
- Uchder: 1000mm

4.5. Safleoedd Bws

4.5.1. Mae safleoedd bws yn rhan bwysig o ansawdd taith cyffredinol defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus. Mae opsiynau gosod yn cynnwys lloches amgaeedig neu loches gantilifrog yn dibynnu ar led troedffyrdd a symudiadau cerddwyr cysylltiedig yn yr ardal gyfagos.

4.5.2. Bydd angen ystyried lleoliad/gosodiad llochesi bws a'r defnydd o baneli hysbysebu fesul safle, gan ystyried yr effaith bosibl ar ddefnydd tir cyfagos a'r effaith weledol ar Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth.

4.5.3. Bydd angen caniatâd hysbysebu lle bo panel hysbysebu yn cael ei ymgorffori mewn safle bws. Lle defnyddir y panel at ddibenion hysbysebu, dylai wynebu llif y traffig fel y gall pobl weld y bysus yn dynesu.

4.5.4. Opsiynau Gosod:



Lloches amgaeedig (Steil 1)



Lloches gantilifrog (Steil 1)

4.5.5. Opsiynau Dylunio

- **Steil 1:** To Gwydr Clir: Dyluniad Safonol Canol y Ddinas / Y Bae a Dyluniad Tirnod y Sir
- **Steil 2:** To 'Rholio' neu do 'gwastad' Gwyrdd: Dyluniad Safonol y Sir (ac eithrio Canol y Ddinas / Y Bae)



Steil 2: To 'gwastad' gwyrdd



Steil 2: To 'Rholio' Gwyrdd

4.5.6. Manylebau safonol:

- Rheilen ar ogwydd (Lliw: Coch Dinesig)
- Arddangosfa LED 'Amser real'
- Sgrîn gwybodaeth amserlen bersbecs

4.6. Seddi

4.6.1. Gall seddi gynnis lle gorffwys i gerddwyr a chreu ardaloedd o ryngweithio cymdeithasol a lleoliadau lle gall pobl fwynhau'r golygfeydd amgylchynol. Mewn ardaloedd i gerddwyr (a lle mae digon o le) gellir eu gosod mewn llefydd sy'n annog pobl i ryngweithio'n gymdeithasol.

4.6.2. Mae meinciau'n cynnis seddi anffurfiol, tra bod seddi â chefnau'n cynnis lefel ychwanegol o gymorth a all helpu i greu mannau gorffwys am gyfnodau estynedig o amser. Yn y ddau achos, gall breichiau meinciau helpu pobl llai symudol.

4.6.3. Dylai fod digon o le i fygis, cadeiriau olwyn neu sgwteri barcio wrth ymyl cydymaith a / neu arwyneb cadarn o amgylch y sedd / mainc at ddibenion parcio.

4.6.4. **Steil 1:** Haearn (Dyluniad Safonol Sir Gyfan):



- Dur di-staen neu ddur powdr poliestr
- Opsiynau sedd neu fainc
- Opsiynau syth neu blyg
- Haen bowdr: Du jet (RAL 9005)

4.6.5. **Steil 2:** Dur / Pren: (Canol y Ddinas / Bae neu Ddyluniad Tirnod):



- Dur di-staen / pren caled
- Opsiynau sedd neu fainc

4.6.6. **Steil 3:** Gwenithfaen: (Canol y Ddinas / Bae neu Ddyluniad Tirnod):



- Uchder canolrifol 470-480mm
- Opsiynau syth neu blyg
- Opsiynau dylunio: Gorffwysion braich neu stydiau sglefrwrdd

4.6.7. **Steil 4:** Plastig wedi'i Ailgylchu: (Nis defnyddir yn helaeth):



- Effaith bren
- Opsiynau sedd neu fainc
- Opsiynau lliw: Du neu frown
- Ffitiadau isddaearol

4.7. Rheilins

4.7.1. Dylid ystyried yr angen am, a lleoliad, rheilins yn ôl safle a pheidio â'u gosod fel rheol. Mae tri opsiwn dylunio, yn dibynnu ar ofynion unigol safle. Mae paneli ar gael mewn dur galfanedig / haen bowdr (RAL 9005 – Du jet)



Steil 1: Rheilins bariau mewnlenni safonol



Steil 2: Rheilins gweledd uchel

- Trefniadau rheilins sy'n gorgyffwrdd i wella gweledd drwy'r rheilins



Steil 3: Rheilins panel gweledd

- Bwlch ar ben y rheilins i gynorthwyo â gweledd i blant a defnyddwyr cadeiriau olwyn / sgwteri

4.8. Strapiau Sglefrfyrdau

4.8.1 Dylid ceisio atal sglefrfyrdio fel rhan o gam dylunio cychwynnol cynllun tir cyhoeddus. Os nad yw'n bosibl atal sglefrfyrdio ar hyd waliau, plinthau a meinciau, dylid ystyried strapiau sglefrfyrdau fel modd o atal.

4.8.2 Wrth ddewis dyluniad strap sglefrfyrdio, mae angen ystyried yr effaith esthetig a geir ar yr amgylchedd amgylchynol. Rhaid i'r dyluniad a ddewisir fod o faint / cadernid digonol at y defnydd, ond dylai hefyd ategu dyluniad y cynllun tir cyhoeddus ehangach a'r celfi stryd neu ddeunydd palmanta sydd o'i gwmpas.

4.8.3 Manyleb: Ni ddylai strap sglefrfyrdio gael pwynt sefydlog / mowntio nac unrhyw elfennau sy'n estyn allan y gellid eu defnyddio i'w symud drwy rym.




4.9. Nodweddion Hanesyddol

- 4.9.1. Mae Caerdydd yn cynnwys amrywiaeth eang o nodweddion hanesyddol sy'n cyfrannu at gymeriad a threftadaeth y ddinas, gan gynnwys: cofebion a cherfluniau, strwythurau rhestredig, palmant pennwn a cherrig cyrbau ithfaen, blychau post, waliau a rheiliau ffin, goleuadau islawr ac arwyddion enwau strydoedd.
- 4.9.2. Dylid ystyried nodweddion hanesyddol o'r cychwyn cyntaf mewn cynllun tir cyhoeddus a dylent fod yn rhan allweddol o ddyluniad stryd neu fan cyhoeddus.



4.10. Celf Gyhoeddus

- 4.10.1. Gall celf gyhoeddus helpu i ddatblygu hunaniaeth gadarnhaol mewn ardal; gall greu tirnodau, cynnig ffordd ystyrlon o ymgysylltu â chymunedau lleol a helpu i greu unigrywiaeth leol ac ymdeimlad o le.
- 4.10.2. Gall celf gyhoeddus fod yn amrywiol ei ffurf a'i swyddogaeth. Mae'n cynnwys nodweddion cerflunio a chofadeiladau, ac elfennau a integreiddir i ddyluniad adeiladau, adeileddau a thirwedd; diffinio llwybr a chyfnewidfeydd ar safle, neu ddylunio artistig sy'n gwella elfennau swyddogaethau cynllun fel seddi neu arwyddion.
- 4.10.3. Fel aelodau o dîm dylunio, gall artistiaid weithio'n greadigol â chymunedau i ystyried a chyfleu materion o bwys lleol. Gallant gyfrannu at brojectau datblygu ac adfywio drwy ymchwil neu fel sylwebwyr a gallant greu celf gyhoeddus barhaol neu dros dro sy'n mynd i'r afael â chyd-destun a swyddogaethau safleoedd penodol.
- 4.10.4. Dylid ystyried celf gyhoeddus ar gam cynnar yn y broses ddylunio a dylai ffurfio rhan o weledigaeth ddylunio gyffredinol cynllun tir cyhoeddus, gyda'r cysyniadau'n rhan allweddol o stryd neu fan cyhoeddus.
- 4.10.5. Rhagor o ganllawiau yn Strategaeth Celf Gyhoeddus Caerdydd (2005) a Chanllawiau Cynllunio Ategol Celf Gyhoeddus Caerdydd (2006).



Heol-y-Frenhines
Queen Street



Castell Caerdydd
Cardiff Castle



Stori Caerdydd
The Cardiff Story



Gorsaf Ganolog
Central Station



Stadiwm y Mileniwm
Millennium Stadium



Gerddi Soffia
Sophia Gardens



Canolfan Croeso
Tourist Information



5. Arwyddion ac Arwyddion Cyfeiriadau

5.1 Mynegbyst

5.1.1. Dyluniad Safonol Canol y Ddinas (ac eithrio Glannau Bae Caerdydd):



Postyn:

- Sgwâr
- Uchder: 2950mm
- Deunydd: Dur Gwrthstaen
- Testun / Darluniau: Enw Stryd Dwyieithog / Logo Draig (dylid ystyried cynnwys testun Braille a thestun boglynnog).
- Stribyn coch disglair Wedi'i bweru gan gell solar wedi'i mowntio ar ben y postyn.

Arwyddion Padl:

- Dimensiynau: 400 X 600mm
- Hyd at bedwar panel cyfeiriadol
- Pictogramau i helpu i ddehongli
- Craidd lliw heb ei oleuo rhwng paneli
- Testun dwyieithog

5.1.2. Dyluniad Safonol y Sir (ac eithrio Canol y Ddinas):



Postyn:

- Cylchog
- Gwahanydd 1/2 Coler: (1 ganiatáu arwyddion padl ychwanegol)
- Terfyniad: Cromen
- Band 'gweleddd' gwyn 150mm
- Dylid ystyried cynnwys testun Braille a thestun boglynnog

Arwyddion Padl:

- Bys dwbl (1/2 coler)
- Maint ffont o ddewis: 40mm
- Lliw / teip ffont o ddewis: Gwyn / Helvetica
- Steil Ffont: Fflat
- Unioni Ffont: Wedi'i unioni ar y postyn
- Pellterau cerdded: Milltiroedd (neu lathenni ar gyfer pellterau byr)
- Testun dwyieithog

Opsiynau Lliw:

- Bae Caerdydd: Glas Rhydychen (BS381 105)
- Parciau: Gwyrdd Mwsogl (RAL 6005)
- Ardaloedd Eraill: Gloywddu (RAL 9005)

5.2 Paneli Gwybodaeth Twristiaid

5.2.1. Dyluniad Safonol Canol y Ddinas:



Cydrannau Dylunio:

- Arwydd agwedd ddwbl
- Ffrâm ddu wedi'i galfaneiddio, paneli gwydr a plinth ithfaen.
- Testun dwyieithog
- Band coch llachar ynni solar
- Dimensiynau: 450 x 2850 x 130mm
- Dylid ystyried cynnwys testun Braille a thestun boglynnog

Rhan 1 (Brig): 450 x 180mm:

- Enw Stryd a Logo Cyngor Caerdydd

Rhan 2: 450 x 750mm:

- Arwyddion cyfeiriadau a phictogramau cysylltiedig.

Rhan 3: 450 x 850mm:

- Map o'r ardal leol 400 x 400mm
- Map cyd-destunol syml 250 x 250mm
- Pictogramau allweddol a chysylltiedig.
- Mapiau wedi'u hargraffu'n ddigidol ar finyl / wyneb cefn gwydr gwydn 10mm
- Stribyn Braille 60mm rhwng y mapiau.

Rhan 4 (Gwaelod): 450 x 900mm.

- Plinth Ithfaen gyda Logo Draig Cyngor Caerdydd.

5.2.2. Egwyddorion Cyffredinol y Sir (ac eithrio Canol y Ddinas):



Arddangosfa Bosteri' amgaeedig:

- Deunydd: Dur Gwrthstaen
- Lliw: RAL9005 (Gloywddu), RAL6005 (Gwyrdd Mwsogl)
- Agoriad: Colyn nwy ar y brig neu'r ochr
- Diogelwch: Cloeon gwrth-fandaliaeth / gwydr gwydn
- Awyru: System awyru barhaus
- Cefnfwydd: Magnetig (galfanedig neu gôt powdr)
- Gosodiadau: Ar wal neu bostyn
- Dimensiynau: Yn unol â gofynion y safle unigol
- Postyn: Cylchog neu sgwâr
- Terfynol: Cromen

5.3 Hysbysfyrddau / Paneli Dehongli



Egwyddorion Cyffredinol y Sir:

- Deunydd: Dur Gwrthstaen
- Lliw: RAL9005 (Gloywddu), RAL6005 (Gwyrdd Mwsogl)
- Gosodiad: Unochrog neu ddwyochrog
- Diogelwch: Gosodiadau gwrth-ymyrraeth
- Panel Graffeg: Gellir ei symud
- Dimensiynau: Yn unol â gofynion y safle unigol
- Postyn: Sgwâr neu gylchog
- Terfynol: Cromen

5.4 Arwyddion Enwau Stryd



- Dylunio: I'w ystyried ar sail pob safle unigol
- Testun dwyieithog
- Meintiau arddull ffont safonol a thestun

5.5 Egwyddorion Cyffredinol:



5.5.1. O ran gosod arwyddion a marciau ffordd, amlinellir gofynion gorfodol gan y Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig (TSRGD).

5.5.2. Mae Llawlyfr Arwyddion Traffig yr Adran Drafndiaeth yn rhoi cyngor ar ddefnyddio arwyddion a marciau ffordd. Mae'n nodi'r canlynol: Wrth ystyried y rheoliadau hyn, ceir lle i ystyried y darlun ehangach a gwneud penderfyniadau cytbwys i sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddigonol i'r holl ofynion swyddogaethol ac esthetig, fel yr amlinellir yn Nodyn Trafnidiaeth Lleol (NTLI) 1/08 Rheoli Traffig a Strydlun (2008) yr Adran Drafndiaeth.

5.6 Bolardiau Traffig Cyfeiriadol

5.6.1. Bolard heb ei Oleuo: Dyluniad Safonol y Sir:



- Dimensiynau: 1046 x 398 x 200mm
- Lliw: Du
- Wyneb Arwyddion: Diamedr 300mm
- Adlewyrchedd i'r blaen / ochr / cefn
- Gwrthsefyll gwrthdrawiadau
- Opsiynau unochrog neu ddwyochrog
- Wedi'i fowntio ar arwyneb

5.6.2. Bolard wedi'i Oleuo: Dyluniad Safonol y Sir:



- Dimensiynau: 1046 x 398 x 200mm
- Lliw: Gwyn
- Wyneb Arwyddion: Diamedr 300mm
- Adlewyrchedd i'r blaen / ochr / cefn
- Gwrthsefyll gwrthdrawiadau
- Opsiynau unochrog neu ddwyochrog
- Wedi'i fowntio ar arwyneb
- Golau LED suddedig (24v / 230v)

5.6.3. Bolard Dur Gwrthstaen: Dyluniad Tirnod Canol y Ddinas:



- Dimensiynau: 1125 x 600 x 60mm
- 316 o diwbiau 60mm wedi'u brwsio â Dur Gwrthstaen
- Gosod drwy ddrilio
- Goleuo drwy oleuwr wedi'i fowntio ar balmant

6. Goleuadau stryd

6.1 Colofnau goleuadau

6.1.1. Egwyddorion Cyffredinol:

- Steil 1: Colofn alwminiwm
- Steil 2: Colofn dur galfanedig
- Yng Nghanol y Ddinas / Ardaloedd Cadwraeth ac o ran projectau tir cyhoeddus mwy, gellir dewis steil gwahanol bob yn ail golofn goleuadau i helpu i gyfrannu at gymeriad a phryd a gwedd ardal.
- Penderfynir ar liw colofnau goleuadau stryd, bach a mawr, yn unol â'r cynllun unigol.



Dyluniad Pwrpasol
Canol y Ddinas



Colofn yn y Dull
Cadwraeth



Colofn Alwminiwm
Enghreifftiol



Colofn Dur Galfanedig
Enghreifftiol

- 6.1.2. Mae angen i oleuadau stryd gael eu dylunio'n unol â BS5489 'Cod ymarfer o ran goleuadau stryd' ac mewn cydweithrediad â Pholisi Goleuadau Stryd y Cyngor.
- 6.1.3. Pennir ar ba mor olau yw'r goleuadau fesul safle, yn seiliedig ar faint o gerbydau a cherddwyr y rhagwelir y byddant yn defnyddio'r ffordd, y risg o droseddu ac ystyriaethau amgylcheddol eraill.
- 6.1.4. Penderfynir ar gynllun goleuadau stryd fesul safle, yn seiliedig ar bum cynllun cyffredinol: (i) gwasgarod, (ii) unochrog, (iii) cyferbyniol, (iv) deublyg canolog a (v) deublyg canolog a chyferbyniol.
- 6.1.5. Mae ymrwymiad i leihau faint o ynni a ddefnyddir a faint o allyriadau carbon a ryddheir o oleuadau stryd. Rydym yn dal i wneud cynnydd sylweddol o ran manyleb a defnydd goleuadau LED ac, o ganlyniad, caiff manylebau goleuadau stryd eu hystyried fesul safle wrth i gynlluniau gael eu datblygu.
- 6.1.6. Goleuadau Nadolig: Yng Nghanol y Ddinas / y Bae ac mewn canolbwyntiau Rhanbarthol, Lleol a Chymdogaethau dylai cynlluniau goleuadau stryd newydd ystyried cyfleoedd i sicrhau mynediad i'r cyflenwad trydan o ran goleuadau Nadoligaidd. Bydd angen ystyried hyn (a'i gymeradwyo) fesul cynllun.



Bridge Street Square

7. Coed Stryd

7.1 Plannu Coed:

7.1.1. Mae coed yn helpu i wella pa mor ddeniadol yw'r ddinas, ei chymeriad, ei hymdeimlad o aeddfedrwydd a'i safon yn gyffredinol. Maen nhw'n dod â natur i'r ddinas ac yn helpu i ddiogelu adeiladau rhag y tywydd, gan gynnig cysgod a chynorthwyo â chadwraeth ynni. Maent yn hidlo llwch, yn atal sŵn ac yn gallu helpu i wella safon yr aer.

7.1.2. Mae creu coedwig drefol gynaliadwy, ei chynnal a'i chadw a'i gwella, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod Caerdydd yn ddinas dda i fyw ynddi. Gall coed gyfrannu at amwynder gweledol, cynyddu bioamrywiaeth, oeri'r aer, trapio llygryddion, lleihau cyflymder gwyntoedd a dal dŵr glaw. Mae plannu coed newydd ar dir cyhoeddus yn elfen bwysig o goedwig drefol gynaliadwy ond gall ond weithio pan fydd Pensaer Tirlunio, Tyfwr Coed, Gwyddonydd Pridd a Pheirianwyr yn craffu'n fanwl ar y cam dylunio.

7.1.3. Y prif ystyriaethau dylunio cyn ystyried plannu coed yw:

- Y lle sydd ar gael i dyfu uwchlaw ac islaw'r tir.
- Cyfansoddiad a nodweddion strwythurol y priddoedd.
- Graddfa a chymeriad y strydlun.

7.1.4. Mae'r prif egwyddorion dylunio, unwaith bod dichonoldeb y gwaith plannu coed wedi'i gadarnhau, fel a ganlyn:

- Dewisir rhywogaethau neu gylytifar coed ar sail y lle sydd ar gael i dyfu uwchlaw ac islaw'r tir ond, yn gyffredinol, ffefrir llai o goed sy'n gallu tyfu i fwy o faint dros niferoedd mawr o goed llai.
- Dewisir rhywogaethau neu gylytifar coed ar sail yr ansoddau estheteg a nodir.
- Dewisir rhywogaethau neu gylytifar coed ar sail y goddefiant tebygol i amodau'r safle gan gynnwys priddoedd, draenio, amlygiad, llygredd a halen gwrth-iâ.
- Pennir y maint ar y cam plannu ar sail amodau lleol fel priddoedd, amlygiad a'r tebygolrwydd o fandaliaeth.
- Ni fyddwn yn plannu rhywogaethau sengl oni bai bod yr ystyriaethau dylunio pwysicaf yn gwneud hynny'n angenrheidiol, ac fel rheol, ni chaiff mwy na 10% o unrhyw rywogaethau, 20% o unrhyw rywogaethau mewn genws a 30% o unrhyw rywogaethau o fewn teulu eu plannu er mwyn lleihau'r risg o blâu dinistriol ac achosion o glefydau cymaint â phosibl.
- Lle y bo'n bosibl, plannir coed mewn pridd â llystyfiant heb ei gywasgu (tirlun meddal) yn hytrach nag amgylcheddau arwyneb caled.
- Llunnir dyluniadau o dyllau a phyllau coed er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfaint y pridd.
- Bydd dyluniadau tyllau a phyllau coed yn benodol i'r safle a bydd cyflenwyr cynhyrchion yn cyfrannu at y dyluniad terfynol er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben.
- Darperir methodoleg plannu ac ôl-ofal llawn yn unol â'r arfer gorau a safonau'r diwydiant fel, SP 8545:2014, SP 3882:2007 a Trees in Hard Landscapes: A Guide for Delivery (TDAG, 2014).

7.2 Coed mewn Dyluniadau Gwella

- 7.2.1. Mae priddoedd trefol fel arfer wedi'u diraddio er mwyn i goed dyfu'n gyfyngedig heb orfod eu hadfer neu eu disodli'n sylweddol. Mae priddoedd dan arwynebau artiffisial, gan gynnwys pafinau, yn aml wedi'u cywasgu i ddwyseddau trwchus sy'n atal neu'n rhwystro gwreiddiau coed rhag tyfu, ac sy'n atal neu'n rhwystro'r pridd rhag gweithredu mewn ffyrdd sy'n hanfodol i iechyd coed.
- 7.2.2. Er mwyn sicrhau bod coed a blannir mewn tirlun caled yn llwyddiannus, mae'n rhaid i'r dyluniad fodloni'r gofynion canlynol:
- Mae digon o bridd defnyddiadwy ar gael i alluogi'r rhywogaethau coed sydd i'w plannu i sicrhau angorfa effeithiol a thyfiant hirdymor iach.
 - Mae rhwystrau gwreiddiau neu allyryddion ar waith sy'n addas at y diben ond nad ydynt yn cael eu defnyddio fel mater o drefn neu heb ystyried amodau tyfu sy'n benodol i'r safle a nodweddion gwreiddiau coed.
 - Nid yw triniaethau arwyneb tyllau a phyllau coed, gan gynnwys griliau a gardiau, yn atal coed rhag tyfu'n iach ac maent yn addas i gymeriad y strydlun.
 - Defnyddir y manylebau dyfrhau ac awyru gorau sydd ar gael ar gyfer tyllau a phyllau coed.
 - Mae manylebau cymorth coed (gosod polion neu angori) yn briodol i amodau'r coed a'r safle ac yn cael eu haddasu a'u tynnu yn ôl yr angen.
- 7.2.3. Ar yr arwyneb a dan ddaear bydd angen i dyllau coed gael eu dylunio fesul safle.
- 7.2.4. Gellir ymchwiliad i ddyluniadau arloesol plannu coed (e.e. plannu blociau o goed, yn hytrach na llinellau) i safleoedd priodol.

7.3 Griliau Coed:



Opsiwn 1: Gril Haearn Bwrw:

- Dimensiynau: Amrywiol (1200 x 1200mm Safonol)
- Lliw: RAL9005 (Gloywddu)
- Ffrâm: Canolig neu Drwm (yn ôl yr angen)
- Patrwm gril sgwâr i atal sbwriel rhag mynd yn sownd ac i alluogi cerddwyr i gerdded drosto
- Mekanwaith cloi gril i'w atal rhag cael ei symud heb awdurdod
- Ymgorffori agoriadau ar gyfer tiwbiau dŵr
- Y canol: Graean rhwym resin, llechi neu ddeunydd cymeradwy arall



Opsiwn 2: Gril Graean Rhwym Resin wedi'i Ragffurfio:

- Dimensiynau: Amrywiol (1200 x 1200mm Safonol)
- Lliw: Llwydfelyn / addas i'r cynllun tir cyhoeddus amgylchynol
- Ffrâm: Canolig neu Drwm (yn ôl yr angen)
- Ymgorffori agoriadau ar gyfer tiwbiau dŵr
- Y canol: Graean, llechi neu ddeunydd cymeradwy arall

7.4 Gwarchodwr Coeden:



- I'w ddefnyddio gyda Gril Coeden Haearn Bwrw
- Uchder: 1800mm
- Lliw: RAL9005 (Gloywddu)
- Sffêr terfynol 60mm
- Wedi'i osod yn ddiogel ar gril coeden a'i alinio'n fertigol i osgoi difrod i'r goeden
- Gosodiadau tir addasadwy i alluogi'r gwarchodwr i gael ei leoli'n fertigol ar gyfer coed a blannir ar ogwydd.

7.5 Griliau Coed Mawr:



Opsiwn 1: Gril Coed Symudol:

- Siâp: Sgwâr
- Deunydd Mewnosod: Palmant i gyfateb i'r ardal amgylchynol
- Ffrâm: Ysgafn neu Ddur Gwrthstaen (gradd 304 neu 316)
- Dimensiynau: Wedi'i weithgynhyrchu i gyfateb i faint y deunydd palmanta
- Rhannau Symudol: hanner neu chwarter ffrâm



Opsiwn 2: Graean Rhwym Resin:

- Arwyneb graean â rhwym resin a choler wedi'i llenwi â graean rhydd o amgylch y goeden.
- Lliw: Llwydfelyn (neu i gyfateb i'r cynllun amgylchynol)
- Byrddiwr cyffiniol: Ymyl slab neu gwrbyn (dim setiau bach)
- Angen sicrhau mynediad i systemau awyru a dyfrhau'r gwreiddiau

7.6 Coed Stryd Aeddfed ar droedffyrdd (Egwyddorion Cyffredino):




- Ardal gwreiddiau coed wedi'i llenwi ag arwyneb graeanog rwber neu raean rhwym resin.
- Ymyl alwminiwm lle mae gwreiddiau'r goeden bresennol yn ffinio â'r palmant i osgoi'r angen i gloddio neu hansio concrid.
- Gosod arwyneb newydd ar y droedffordd gyffiniol gan ddefnyddio palet deunyddiau yr ardal amgylchynol.
- Mewn achosion lle mae coed yn effeithio'n sylweddol ar symudiadau cerddwyr a / neu aliniad cwrbyn, dylid ystyried opsiynau o ran ymwithiadau troedffordd.
- Bydd angen ystyried cynlluniau fesul safle.

7.7 Uwcholeuyddion:



- Dylid ystyried yr angen am uwcholeuyddion fesul safle.
- Dylai pecynnau gosod gynnwys ffrâm gadarn, amgaead tiwbaidd a blwch cysylltiad trydan.
- Dimensiynau ffrâm: 400 x 400mm
- I'w gosod o fewn slabiau palmant (nid o fewn setiau bach)

7.8. Planwyr (nis defnyddir yn helaeth):



7.8.1. Dylid sefydlu cynllun rheoli a chynnal a chadw hirdymor cyn gosod y planwyr coed newydd.

7.8.2. Plannwr Ithfaen: Dyluniad Canol y Ddinas:

- Dimensiynau: 1900 X 1100mm
- Deunydd: Ithfaen Sglein
- Opsiwn PAS68

7.8.3. Y tu allan i Ganol y Ddinas: Dim dyluniad safonol, ond dylai planwyr fod yn wastad â'r llawr fel nad oes budred / sbwriel yn cronni.

7.9 Dylunio Tyllau Coed Dan Ddaear (Egwyddorion Cyffredinol):

7.9.1. Tyllau Coed:

- Twll y goeden yw'r union ardal blannu tra bod pwll y goeden yn cynnwys holl gyfaint y pridd defnyddiadwy a fydd ar gael i'r goeden.
- Asesir cyfansoddiad a strwythur presennol y pridd o ran addasrwydd i gefnogi tyfiant iach y goeden yn yr hirdymor. Bydd profion yn cynnwys pH y pridd, cyfraddau hidlo dŵr a chywasgiad.
- Os na ellir adfer priddoedd sy'n bodoli eisoes yn unol â'r canllawiau yn SP 8545:2014, SP 3998:2010, 'The Construction Code of Practice for the Sustainable Use of Soils on Construction Sites' (DEFRA, 2009) a 'The Impact of Subsoil Compaction on Soil Functionality & Landscape' (DEFRA, 2006) er mwyn darparu cyfrwng gwreiddiau addas ar gyfer coed, caiff uwchbridd ac isbridd newydd eu fewnforio a'u gosod yn ôl yr angen (yn unol â SP 3882:2007 a chod DEFRA).
- Os caiff priddoedd sy'n bodoli eisoes eu cywasgu gan weithrediadau artiffisial i ddwyseddau trwchus sy'n atal gwreiddiau coed rhag tyfu neu sy'n eu rhwystro'n sylweddol rhag tyfu, yna bydd priddoedd coed strwythurol neu gewyll pridd yn darparu cyfeintiau defnyddiadwy ac yn darparu parthau tyfu gwreiddiau a choridorau sy'n cyd-fynd â'r tirlun meddal presennol.
- Bydd gosod priddoedd strwythurol neu gewyll yn amodol ar gyflwyno manyleb dylunio a gosod safle-benodol gan gyflenwr y cynnyrch.

- Defnyddir pyllau coed parhaol a chysylltiedig lle bynnag y bo'n bosibl.
- Ni fydd uwchbridd fel arfer yn ddyfnach na 400mm a bydd cymhorthion pridd gan gynnwys gwreithiau, compost a ffwng mycorhisol ond yn cael eu defnyddio pan fydd dadansoddiad penodol o'r safle a manyleb y cynnyrch yn rhoi tystiolaeth y bydd y coed yn tyfu'n iach o ganlyniad.
- Defnyddir y manylebau awyru a dyfrhau gorau posibl a byddant wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer y safle.
- Bydd darparu haenau draenio a gwaith draenio positif gan ddefnyddio pibellau'n dibynnu ar amodau sy'n benodol i'r safle a nodir yn dilyn profion hidlo a gwybodaeth am gyfansoddiad priddoedd sy'n bodoli eisoes neu briddoedd a fewnforir. Bydd y math o waith draenio a ddarperir yn cael ei lunio yn dilyn ymgynghoriad â pheiriannydd draenio, gwyddonydd pridd, pensaer tirlunio a thyw'r coed.

Darperir targed gofynnol cyfeintiau pridd defnyddiadwy fel a ganlyn:

- Coeden rhywogaeth fach (lledu i 3m mewn diamedr): cyfaint o 5m³.
- Coeden rhywogaeth ganolig (lledu i 5m mewn diamedr): cyfaint o 15m³.
- Coeden rhywogaeth fawr (lledu i 8m mewn diamedr): cyfaint o 30m³.

7.9.2. Angori:

- Bachu dan ddaear gan ddefnyddio angorau 'dyn marw' neu angorau sydd wedi'u gwthio i mewn i'r ddaear
- Ffefrir angorau 'dyn marw' lle ceir gwasanaethau neu lle nad yw'r tir yn gallu dal pigynnau
- Gall fod angen addasu angorau dros amser i gadw'r goeden yn ddiogel ac yn syth
- Gellid defnyddio polion lle cytunir ar hynny, ond rhaid addasu clymau coed yn rheolaidd i osgoi niwed i'r goeden
- Dylid lleihau taldra polion ar ôl y flwyddyn gyntaf i alluogi boncyff y goeden i gryfhau.

7.9.3. Rhwystrau Gwreiddiau:

- Gall rhwystrau gwreiddiau ddiogelu gwasanaethau tanddaearol
- Gall cyfeirwyr gwreiddiau gyfeirio gwreiddiau i lawr ac i ffwrdd o'r palmant
- Rhaid cyfuno rhwystrau / cyfarwyddwyr â thyllau coed o faint digonol i sicrhau y gall gwreiddiau ledaenu'n ddigonol

7.9.4. Tiwbiau Dyfrio ac Awyru:

- I'w defnyddio ar bob cynllun oni chytunir fel arall
- Tiwb dyfrio i'w osod â gril neu gap nad oes modd amharu arnynt, yn ddelfrydol wedi'u gosod ar gril coed neu ar arwyneb twll coeden.
- Mewn palmentydd anathraidd, tiwb awyru i'w osod gyda 2-4 gril nad oes modd amharu arnynt yn y palmant



The Big Egg, Henke Court

8. Offer Cyffredinol

8.1 Blychau cyfleustodau a phileri bwydo

- 8.1.1. Mae'n bwysig bod blychau a phileri wedi'u cynnwys yn llwyddiannus yn nhir y cyhoedd.
- 8.1.2. I helpu i leihau eu heffaith ar symudiadau a golwg cerddwyr ar strydoedd, dylent gael eu halinio i gyfeiriad cerddwyr a lle y bo'n bosibl naill ai eu lleoli yng nghefn y droedffordd, neu ynghyd â chelfi stryd eraill.
- 8.1.3. Dylai cabinetau gael eu lliwio mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r celfi stryd eraill. Dylid ystyried defnyddio gorffeniad gwrth-graffiti / gwrth-bosteri anghyfreithlon.



8.2 Teledu cylch cyfyng

- 8.2.1. Dylai colofnau teledu cylch cyfyng integreiddio â dyluniad y celfi stryd o'u hamgylch a chymeriad cyffredinol y tir cyhoeddus
- 8.2.2. Opsiynau Lliw: Dur Gwrthstaen, RAL9006 (Alwminiwm Gwyn) neu RAL9005 (Fagddu)
- 8.2.3. Dylai camerâu gael eu gosod ar y polyn teneuaf posibl, ond nid yn ddigon tenau fel bod y camera'n ysgwyd.
- 8.2.4. Dylid ystyried gosod camerâu ar adeiladau neu adeileddau cyfagos, ar yr amod bod y perchennog yn rhoi caniatâd a bod caniatâd cynllunio ac adeilad rhestrdig yn cael ei ddyfarnu yn ôl yr angen.



8.3 Ciosgau Ffôn (yn amodol ar Ganiatâd Priffordd / Cynllunio)

- 8.3.1. Gall dyluniad, lleoliad a grwpio ciosgau ffôn effeithio ar welededd, eglurder a gallu cerddwyr i symud ar hyd stryd.
- 8.3.2. Ac eithrio'r unedau K6 hanesyddol, y dewis o ddyluniad i giosg ffôn yw un ag un ochr agored (h.y. heb ei amgáu neu ei amgáu'n rhannol) i helpu i sicrhau'r lefel uchaf posibl o hygyrchedd i'r cyhoedd.
- 8.3.3. Ni ddylid ystyried ciosgau ffôn heblaw mewn lleoliadau lle na fyddant yn amharu ar allu pobl i gerdded ar hyd stryd.



8.4 Blychau post

- 8.4.1. Mae blychau posibl traddodiadol yn cyfrannu at gymeriad a threftadaeth ardal.
- 8.4.2. Dylai blychau post gael eu lleoli ar ymyl troedffordd neu eu halinio â chelfi stryd eraill i osgoi effeithio ar gerddwyr.
- 8.4.3. Dylent fod wrth ymyl wal gadarn i sicrhau y gall defnyddwyr gael mynediad atynt.



8.5 Peiriannau talu ac arddangos

- 8.5.1. Dyluniad Sirol Safonol
- 8.5.2. Dylai peiriannau gael eu gosod pan fo digon o oruchwyliaeth naturiol a'u ffinio gan wal ddigonol i sicrhau y gall pob defnyddiwr eu defnyddio..
- 8.5.3. Dylid eu lleoli lle mae digon o le ar y droedffordd a'u halinio â chelfi stryd eraill i greu llwybr dirwysr i gerddwyr.



8.6 Colofn Bosteri (yn amodol ar Ganiatâd Priffordd/Cynllunio)

- 8.6.1. Dylai colofnau posterï cael eu lleoli mewn man priodol. Dylai eu maint / dyluniad gyd-fynd â'r ardal gyfagos a bydd angen rhoi ystyriaeth iddynt fesul safle gan ystyried materion fel:
 - Effaith ffisegol ar le cerdded
 - Effaith weledol o ran Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth a defnyddiau tir cyfagos.
 - Rheoli a chynnal a chadw parhaus



8.7 Blychau graean

- 8.7.1 Dyluniad Safonol Sir Gyfan:
 - Lliw: Gwyrdd
 - Capasiti Storio: 400kg
 - Polyethylen gradd uchel
 - Caead wedi'i atgyfnerthu ag agoriad 270 gradd



9. Gweithgareddau ac Arddangosiadau mewn Ardaloedd i Gerddwyr

9.1 Caffis stryd

9.1.1. Trwyddedir caffis stryd (y defnydd o fyrddau a chadeiriau y tu allan i gaffis, tafarndai a bwytai) ar y briffordd gyhoeddus (troedffordd) dan Adran 115E Deddf Priffyrdd 1980. Lluniwyd nodyn canllaw ar Gaffis Stryd ar y Briffordd (2006) gan y Cyngor, sydd â'r nod o helpu busnesau i ddeall lle y gellid caniatáu caffis stryd, y caniatâd sydd ei angen a sut y caiff ceisiadau eu hasesu.

9.1.2. Egwyddorion Cyffredinol:

- Ni ddylai Caffis Stryd achosi rhwystr ar y briffordd na chreu perygl i gerddwyr.
- Rhaid cael llwybr cerdded clir ar gyfer y rheiny sy'n cerdded heibio'r eiddo na ddylai fod yn llai na 2m metr o led.
- Dylid darparu ffordd gludadwy o amgáu fel rhwystrau fel arfer.
- Dylai'r byrddau a'r cadeiriau fod o safon uchel ac yn unfath.
- Rhaid i'r ardal gael ei chynnal yn dda o ran glendid ac ymddangosiad cyffredinol.
- Gellir rhoi trwyddedau i hyd at flwyddyn a gellir eu hadnewyddu'n flynyddol.
- Dylai byrddau a chadeiriau gael eu rhoi y tu fewn i'r eiddo y tu allan i oriau agor. Perchenogion yr adeilad sy'n gyfrifol am gynnal unrhyw finiau a phlanwyr sy'n eiddo iddynt.
- Gallai'r caniatâd nodi cyfyngiadau o ran pryd yn ystod y dydd y gellir eu defnyddio, yn unol â cherbydau gwasanaethu sy'n defnyddio'r stryd.



9.2 Hysbysfyrddau Cludadwy (Byrddau 'A')

9.2.1. Bydd angen trwydded gan y Cyngor ar unrhyw un sy'n cynnig gosod strwythur at ddibenion gwerthu nwyddau ar Briffordd a gynhelir gan bwrs y cyhoedd.

9.2.2. Trwydded i Godi Strwythurau at Ddibenion Gwerthu Nwyddau Dan Adran 115 O Ddeddf Priffyrdd 1980

9.2.3. Mae trwydded i godi hysbysfyrddau cludadwy (Byrddau A) yn ddilys am hyd at 12 mis.



